## Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

01 Gorffennaf 2019

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 10 Mehefin, pan wnaethoch ofyn:

*A allech roi gwybod i mi beth oedd y gost ar gyfer*

- *(i) creu,*
- *(ii) cyfieithu ac*
- *(iii) argraffu'r cyhoeddiad a ganlyn.*

*http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld12487/cr-ld12487-w.pdf*

*Hefyd, faint o gopïau o'r cyhoeddiad hwn sydd wedi'u hargraffu (iv).*
*Diolch yn fawr,*

Gweler isod yr ymateb i'ch cais:

i) Mae'r timau sy'n gyfrifol am lunio a chyfieithu'r adroddiad yn cael eu cyflogi gan Gomisiwn y Cynulliad, ac maent yn gweithio ar amrywiaeth o dasgau a phrosiectau. Nid yw'n bosibl datgrynhoi eu costau gan nad yw staff yn cofnodi'r amser a dreulir ganddynt ar un elfen o'u gwaith, ac felly, nid yw'r wybodaeth hon ar gael ac ni ellir ei darparu.

ii) Gweler rhan i) uchod.


Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru
Information-request@assembly.wales

iii) Argraffodd Comisiwn y Cynulliad 30 copi dwyieithog o'r adroddiad i gyd, a'r gost oedd £68.

iv) Gweler rhan iii) uchod.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am yr adroddiad hwn neu waith y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, cysylltwch â'r tîm clercio drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn: SeneddPPIA@cynulliad.cymru

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Ystyriwyd eich cais yn unol â’r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i’r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae'r Cynulliad wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru neu'r cyfeiriad post a ganlyn:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i’r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF